PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU'R YSGOLORIAETH MYNEDIAD
IONAWR 2019

ECONOMEG

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr:

a) Atebwch unrhyw ddau gwestiwn

b) Cewch ddefnyddio cyfrifianellau safonol nad oes modd eu rhaglennu.

---

1. Trafodwch fanteision ac anfanteision systemau cyfradd gyfnewid sefydlog ac arnawf. **(50 marc)**

2. Trafodwch oblygiadau economaidd Brecsit. **(50 marc)**

3. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Esboniwch ystyr y term allanoldebau. **(15 marc)**
   b. Rhowch enghreifftiau o allanoldebau positif a negatif. **(15 marc)**
   c. Defnyddiwch eich enghreifftiau i esbonio pam mae marchnad yn methu pan fo allanoldebau'n bresennol. **(20 marc)**

4. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Disgrifiwch swyddogaethau arian. **(20 marc)**
   b. Esboniwch a chymharwch sut y mae'r modelau arianyddol a Keynesaidd yn gweld arian. **(30 marc)**

5. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Esboniwch ystyr y term monopoli a lluniwch ddiagram o gynhyrchydd monopoliaidd yn sicrhau'r elw mwyaf posibl. **(25 marc)**
   b. Trafodwch a yw monopoli bob amser yn mynd yn groes i les y cyhoedd. **(25 marc)**

6. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Trafodwch y dadleuon mewn damcaniaethau economaidd dros bwysigrwydd cyfalaf dynol. **(30 marc)**

b. A ddylai'r gost am ddarparu addysg gael ei thalu gan y wladwriaeth, yn breifat, neu'r ddau? Trafodwch. **(20 marc)**

7. Atebwch yr holl gwestiynau isod:

   a. Mae economegwyr yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ddiweithdra. Disgrifiwch y rhain gan esbonio'r ffactorau sy'n achosi'r diweithdra ym mhob achos. **(20 marc)**

   b. Esboniwch y dulliau a ddefnyddiwyd i fesur diweithdra. A fyddech chi'n awgrymu ffyrdd eraill o'i fesur, ac os felly, pam? **(15 marc)**

   c. Pa bolisïau fyddech chi'n eu hawgrymu i ostwng y lefel ddiweithdra? **(15 marc)**

8. Esboniwch fantais gymharol fel sylfaen ar gyfer masnach ryngwladol. Cloriannwch y dadleuon o blaid ac yn erbyn masnach rydd. **(50 marc)**